

Nodyn Technegol ar Dargedau'r Cynllun Cyflogadwyedd

Y darlun cyfredol

Yn hanesyddol, mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn is nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig (DU). Er bod amcangyfrifon Arolwg y Llafurlu yn gyfnewidiol, mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos bod cyflogaeth 2.5 pwynt canran yn is nag yn y DU. Yr amcangyfrif ar gyfer y cyfraddau yw 72.7 y cant ar gyfer Cymru a 75.2 y cant ar gyfer y DU¹.

Caiff pobl nad ydynt yn gweithio eu cyfrif naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Fel arfer, pobl ddi-waith yw pobl nad ydynt yn gweithio ond sydd wrthi'n chwilio am waith ac sydd ar gael i'w wneud. Ar y llaw arall, nid yw'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn chwilio am waith fel arfer, neu nid ydynt ar gael i'w wneud.

O gymharu hyn â gwledydd a rhanbarthau eraill y DU, mae canran y rhai sy'n economaidd anweithgar yn uwch yng Nghymru (23.4 y cant o'i gymharu â 21.3 y cant²). Mae'r gyfradd ddiweithdra hefyd wedi bod yn uwch yn hanesyddol yng Nghymru na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r gyfradd ddiweithdra wedi bod yn codi ac yn gostwng ar gyfradd debyg i un y DU. Mae'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru ar hyn o bryd yn 5.0%, o'i chymharu â chyfradd y DU o 4.4%³.

Caiff cyfraddau cyflogaeth eu gyrru gan lefelau sgiliau fel arfer. Mae gan Gymru ganran uwch o bobl heb gymwysterau na'r cyfartaledd yn y DU. Mae ganddi hefyd ganran is o bobl sydd heb gymwysterau TGAU (a chyfwerth) neu lefel gradd (a chyfwerth).

Targedau

Datblygwyd targedau ar lefel genedlaethol a lefel ranbarthol ar gyfer cyfraddau anweithgarwch economaidd a diweithdra. Y rhanbarthau yw'r rhai hynny sydd wedi'u diffinio yn y cynllun datblygu economaidd, ac maent yn cydweddu â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Mae'r diffiniad ar gyfer y rhai sy'n economaidd anweithgar yn cynnwys myfyrwyr a phobl wedi ymdeol. Wrth ddatblygu targedau ar gyfer y cynllun cyflogadwyedd, **mae myfyrwyr a phobl wedi ymdeol wedi'u hepgor.**

Bydd y targedau hyn yn cael ei monitro gan ddefnyddio'r cyhoeddiadau presennol ar gyfer ystadegau swyddogol. Mae'r tabl isod yn dangos y prif fesur a fydd yn cael ei dracio, a ffynhonnell yr ystadegau swyddogol.

Targed	Prif fesur	Gwerth(oedd) presennol	Cyhoeddiad
1. Drwy'r cynllun hwn byddwn yn cyfrannu at gynyddu lefelau cynhyrchiant yng Nghymru dros y degawd nesaf.	GVA (dull cymesur) fesul awr a weithiwyd, yn berthynol i'r DU.	83.1 y cant o werth y DU. Cyfnod amser: 2016.	Cynhyrchiant https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/articles/regionalandsubregionalproductivityintheuk/jan2017

¹ Ffynhonnell: Hydref - Tachwedd 2017, Arolwg y Llafurlu (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

² Ffynhonnell: Hydref - Tachwedd 2017, Arolwg y Llafurlu (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

³ Ffynhonnell: Hydref - Tachwedd 2017, Arolwg y Llafurlu (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

<p>2. Byddwn yn cael gwared ar y bwch o ran cyfraddau diweithdra oedran gweithio ac anweithgarwch economaidd rhwng Cymru a chyfartaledd y DU ymhen 10 mlynedd.</p>	<p>Y bwch yng nghyfradd anweithgarwch economaidd y DU a Chymru (heb gynnwys myfyrwyr a phobl wedi ymddeol)</p> <p>Y bwch yng nghyfradd ddiweithdra'r DU a Chymru</p>	<p>Anweithgarwch economaidd Cymru 16.0% DU 14.5% Bwlch: 1.5% (24,300 bobl)</p> <p>Diweithdra Cymru: 4.9% DU: 4.7% Bwlch: 0.2% (2,100 o bobl)</p> <p>Cyfnod amser: y flwyddyn yn diweddu chwarter 2, 2017.</p>	<p>Arolwg Blynyddol y Gweithlu (diweddarar yn chwarterol)</p> <p>http://gov.wales/statistics-and-research/annual-population-survey/</p>
<p>3. Byddwn yn cael gwared ar y bwch rhwng Cymru a gweddill y DU ar bob lefel cymhwyster ymhen deng mlynedd, ac yn sicrhau ein bod yn y dyfodol o leiaf yn cynnal ein perfformiad o gymharu â gweddill y DU.</p>	<p>% yr oedolion o oed gwaith ar y lefelau canlynol o bob cymhwyster:</p> <p>Lefel 2 ac uwch Lefel 3 ac uwch Lefel 4 ac uwch</p>	<p>Bwlch (Canran Cymru, canran y DU)</p> <p>Lefel 2 ac uwch 1.0% (77.7%, 78.7%)</p> <p>Lefel 3 ac uwch 2.4% (57.9%, 60.3%)</p> <p>Lefel 4 ac uwch 3.0% (37.4%, 40.4%)</p>	<p>Lefel y cymwysterau uchaf a ddeler gan oedolion o oed gweithio</p> <p>http://gov.wales/statistics-and-research/levels-highest-qualification-held-working-age-adults/?skip=1&lang=cy</p>
<p>4. Byddwn yn lleihau nifer y bobl sy'n NEET yng Nghymru.</p>	<p>Nifer y rhai 16-18 oed 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (amcangyfrif SFR).</p>	<p>Amcangyfrif yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf</p> <p>16-18 oed: 10.4% (11,000).</p> <p>19-24 oed: 18.5% (46,400).</p> <p>Cyfnod amser: diwedd 2016 (amodol).</p>	<p>Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)</p> <p>http://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?lang=cy</p>

Targedau i'w datblygu ymhellach

Nid yw'r dulliau mesur ar gyfer y ddau darged canlynol wedi'u datblygu eto.

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i nodi targedau addas er mwyn cynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith.
- Byddwn yn gosod targed ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Cymru Iach ar Waith.
- of employers engaged in the Healthy Working Wales Programme.